# Arwain o ran gofynion rheoliadol yn y gweithle

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud ag arwain y gweithle i gwrdd â gofynion rheoliadol, yn unol â gofynion eich gwlad. Mae’n cynnwys cynllunio ar gyfer arolygiadau, casglu tystiolaeth, adnabod bylchau a chymryd camau addas i gwrdd â gofynion.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. adolygu'r safonau rheoliadol y disgwylir i'r gweithle lynu wrthynt
2. myfyrio ynghylch pwrpas, disgwyliadau a chwmpas arolygiadau
3. sicrhau bod gwybodaeth am arolygiadau ar gael i eraill a chyfathrebu eu pwrpas a'u manteision
4. archwilio systemau yn y gweithle i wneud yn siwr eu bod yn cwrdd â safonau rheoliadol
5. sicrhau bod polisïau'n gyfredol ac mewn lleoliad sy'n hygyrch i bobl eraill
6. grymuso eraill i fod yn hyderus o ran eu gwybodaeth am bolisïau a gweithdrefnau
7. cefnogi eraill i deimlo'n hyderus wrth ddefnyddio iaith sy'n ymwneud â gofynion rheoliadol
8. esbonio a chefnogi eraill i gwrdd ag amodau cofrestru
9. gweithio ar y cyd ag eraill i adnabod meysydd i'w datblygu o ran arferion
10. rhoi cyfle i eraill ddysgu o enghreifftiau o arferion gorau fel rhan o ymdrechion dysgu a datblygu
11. caniatáu mynediad at adroddiadau arolygu blaenorol fel sail i hunanwerthuso a gwella ymarfer
12. gweithio ar y cyd i gynllunio'r broses arolygu gydag eraill
13. sicrhau bod cynlluniau gofal a chymorth a chynlluniau eraill yn cwrdd â gofynion cyfreithiol ac anghenion unigolion
14. rhoi gwybod i unigolion ac eraill bod angen ymgymryd ag arolygiad ac y byddir yn ymgynghori â nhw
15. ymgymryd ag archwiliadau o'r gweithle a chyfarpar i wneud yn siwr eu bod yn cwrdd â gofynion iechyd a diogelwch
16. adolygu gwahanol ffynonellau tystiolaeth i ddangos cydymffurfiaeth â gofynion rheoliadol
17. sicrhau cefnogaeth pobl eraill o ran adnabod tystiolaeth sy'n cwrdd â safonau
18. cynnal tystiolaeth sy'n dangos cydymffurfiaeth â rheoliadau iechyd a diogelwch, iechyd yr amgylchedd, a thân
19. sicrhau bod cofnodion ac adroddiadau ar gael
20. sicrhau bod systemau rheoli'n cael eu cynnal
21. gwerthuso argymhellion o arolygiadau, eu cymharu ag asesiadau blaenorol, a chytuno ag eraill ar gynllun i gwrdd ag argymhellion

22. mynd ati ag eraill i adnabod meysydd o ymarfer da yn y gweithle
23. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen i gwrdd â gofynion rheoliadol
24. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i arwain o ran gofynion rheoliadol yn y gweithle

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. pwrpas a disgwyliadau'r arolygiadau rheoliadol
2. y safonau rheoliadol y mae'n rhaid i'r gweithle lynu wrthynt
3. ble i ddod o hyd i wybodaeth am y gofynion ar gyfer arolygiadau
4. pam ei fod yn bwysig cynllunio ar gyfer arolygiadau
5. pam ei fod yn bwysig rhoi gwybod i unigolion ac eraill am arolygiad
6. dylanwad ffactorau sy'n ymwneud â diwylliant a chefndir ar gynnwys unigolion ac eraill mewn arolygiadau
7. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar brofiadau unigolion ag arolygiadau
8. sut mae ymgymryd ag archwiliadau rheolaidd o'r gweithle a chyfarpar i wneud yn siwr eu bod yn cwrdd â gofynion iechyd a diogelwch
9. pwysigrwydd archwilio systemau yn rheolaidd yn y gweithle i wneud yn siwr eu bod yn cwrdd â safonau rheoliadol
10. pwysigrwydd cynnal a chadw gwybodaeth gywir am gymwysterau, statws iechyd a chyfrifoldebau pobl eraill
11. sut mae sicrhau bod cofnodion ac adroddiadau am unigolion yn cael eu cadw'n gywir ac yn gyfredol
12. sut mae cadw cofnodion ac adroddiadau cywir am gyfarfodydd a thrafodaethau
13. sut mae adolygu gwahanol ffynonellau tystiolaeth i ddangos cydymffurfiaeth â gofynion rheoliadol, a'r gwahanol bolisïau, gweithdrefnau, cofnodion ac adroddiadau a fydd yn rhoi tystiolaeth ar gyfer gofynion rheoliadol
14. sut mae darparu tystiolaeth sy'n dangos cydymffurfiaeth â rheoliadau iechyd a diogelwch, iechyd yr amgylchedd, a thân
15. pwysigrwydd sicrhau bod systemau rheoli ar waith i gynorthwyo â chydymffurfiaeth reoliadol
16. strategaethau i gynorthwyo eraill i fagu hyder o ran eu gwybodaeth am bolisïau a gweithdrefnau a'u dealltwriaeth o'u rolau a'u cyfrifoldebau unigol mewn perthynas â chydymffurfiaeth reoliadol
17. sut mae arwain o ran defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma yn y gweithle
18. sut mae arwain o ran urddas, caredigrwydd a thosturi wrth arwain a rheoli'r gweithle
19. sut mae cynorthwyo rheoleiddio emosiynol yn ystod arolygiadau rheoliadol

20. sut mae cadw polisïau yn gyfredol a sicrhau bod modd cael gafael arnynt yn y gweithle
21. dulliau ar gyfer hunanwerthuso yn erbyn gofynion rheoliadol
22. sut mae defnyddio adroddiadau arolygu blaenorol i wella ymarfer
23. sut mae gwerthuso argymhellion o arolygiadau, eu cymharu ag asesiadau blaenorol, a chytuno ar gynllun ag eraill i gwrdd ag argymhellion
24. strategaethau ar gyfer adnabod meysydd o arferion gorau gydag eraill yn y gweithle
25. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i arwain o ran gofynion rheoliadol
26. theorïau sy'n berthnasol i arwain o ran gofynion rheoliadol yn y gweithle
27. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer arwain o ran gofynion rheoliadol yn y gweithle
28. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth arwain o ran gofynion rheoliadol yn y gweithle
29. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth arwain o ran gofynion rheoliadol yn y gweithle

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

# Arwain o ran gofynion rheoliadol yn y gweithle

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD420 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Gofynion Rheoliadol yn y Gweithle, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |